GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

VOBIS PRODESSE NECESSARIO TEMPORE

# Cynllun Corfforaethol

## 2017-2022

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 4
**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** 6
Y Bwrdd Gweithredol 6
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 7
Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a 8
Ein Perfformiad? 10
- Targedau Perfformiad 2017/2018 11
**Y Pwysau sy'n ein Hwynebu** 12
Caledi a Thwf 12
Ein Cyllideb 13
**Datblygu ein Cynllun Corfforaethol** 14
Datganiad ynghylch Llesiant 15
Ein Blaenoriaethau Strategol 16
Ein Hamcanion Gwella 16
Asesiadau o Berfformiad Blynyddol 16
**Ein Blaenoriaethau Strategol** 18
Cydweithio 18
Arloesedd 19
Gwella'r Modd y Darperir Gwasanaethau 19
Gwneud gwell defnydd o'n Hasedau a'n Hadnoddau 19

JR0158 - Cynllun Corfforaethol

75% wedi'i ailgylchu
Cyhoeddwyd ar bapur mae 75% ohono wedi'i ailgylchu

| | | |
|---|---|---|
| Cynaliadwyedd | | 20 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | 20 |
| Grymuso ein Staff | | 21 |
| **Ein Hamcanion Gwella** | | **22** |
| Amcan Un: | Darparu ymyrraeth diogelwch yn y cartref gyfannol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. | 26 |
| Amcan Dau: | Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru. | 28 |
| Amcan Tri: | Cyflawni ein rhan ni o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. | 30 |
| Amcan Pedwar: | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'n rôl ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | 32 |
| Amcan Pump: | Cyfrannu i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) newydd a'i weithredu. | 34 |
| Amcan Chwech: | Datblygu ymhellach ganfyddiadau Adolygiad Risg ac Asesiad Strategol y Gwasanaeth. | 36 |
| Amcan Saith: | Adolygu a datblygu ein hymateb i lifogydd. | 38 |
| Amcan Wyth: | Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes. | 42 |
| Amcan Naw: | Buddsoddi yn ein pobl. | 44 |
| Amcan Deg: | Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau. | 46 |
| Amcan Un Ar Ddeg: | Digido - Defnyddio technoleg er mwyn arloesi, cydweithio a grymuso. | 48 |
| Amcan Deuddeg: | Gwella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd. | 50 |

# Cyflwyniad

**Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Corfforaethol, sy'n datgan ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol...**

> **"BOD YN ARWEINYDD BYD YM MAES YMATEB I ARGYFWNG A DIOGELWCH CYMUNEDOL"**

Rydym yn falch iawn o'r gwaith a wnawn. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi mynychu 2,995 o danau mewn tai, 5,323 o wrthdrawiadau ar y ffordd ac wedi cynnal 105,000 o Wiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref. Yn ogystal, mae ein diffoddwyr tân ar alwad wedi ymateb i 8,927 o alwadau brys meddygol mewn cerbydau cyd-ymatebydd, sy'n gynnydd o 50% ers 2006/2007.

Rydym wedi cyflawni'r hyn oll yn ogystal â chyflawni arbedion o £9 miliwn, sy'n cyfateb i oddeutu 20% o'n cyllideb gyffredinol (ers 2006) heb effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir na cholli swyddi Fodd bynnag, does dim osgoi'r ffaith y bydd yr hinsawdd ariannol bresennol yn parhau i greu pwysau ychwanegol ar lefel y gwasanaeth a ddarparwn wrth i ni ymestyn ein hadnoddau ymhellach eto.

Rydym wedi ymrwymo i addasu i'r heriau hyn mewn ffordd bositif ac mae ein Cynllun Corfforaethol yn pennu ein Blaenoriaethau Strategol am y pum mlynedd nesaf. Credwn mai cydweithio yw'r dyfodol i'r gwasanaethau brys, a bydd hyn yn ein galluogi i wella'r ffordd rydym ni'n gweithio, i rannu ein pobl a'n hadnoddau ariannol ac i achub mwy o fywydau yn y pen draw. Rydym wedi ymrwymo i ddarganfod atebion arloesol i gynhyrchu incwm, a sicrhau cynaliadwyedd er lles ein cymunedau.

Dim ond trwy gyflogi'r bobl iawn y gallwn ddarparu gwasanaeth gwell a llwyddiannus. Rydym eisiau'r gweithwyr gorau sy'n cynrychioli ein cymunedau, wedi eu hyfforddi yn y ffordd orau i sicrhau eu diogelwch ac wedi'u harfogi â'r offer gorau fel y gallant weithredu i'r safonau uchaf.

Fel rhan o'n Cynllun Corfforaethol 2017-2022, rydym wedi datblygu 12 Amcan Gwella ar gyfer 2017/2018, a gynlluniwyd i'n helpu i gyflawni ein Blaenoriaethau Strategol.

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

Pennwyd yr Amcanion Gwella hyn yng nghyd-destun yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus, ond maent hefyd yn adlewyrchu ein hawydd i groesawu syniadau arloesol a dulliau newydd o weithio. Buom yn awyddus hefyd i gofleidio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac rydym wedi adolygu ein trefniadau cynllunio er mwyn adlewyrchu ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau newydd.

Ar ben hynny, mae'r Ddeddf yn gosod 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n dweud wrth sefydliadau sut y dylent fynd ati i gyflawni'u dyletswyddau dan y Ddeddf. Wrth lunio'r Cynllun drafft hwn, rydym wedi ystyried y pum ffordd o weithio sy'n arddangos datblygu cynaliadwy. Byddwn yn gwreiddio'r rhain yn ehangach yn ein dulliau gwaith ar draws y Gwasanaeth.

Rydym yn hyderus fod yr Amcanion Gwella sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol hwn yn gosod rhaglen gadarn o weithgareddau am y flwyddyn nesaf, a fydd yn fodd i ni gyflawni ein Blaenoriaethau Strategol ac yn cydnabod anghenion y cymunedau a wasanaethwn a hynny yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hwy. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer y tymor hir yn heriol dros ben oherwydd yr holl ansicrwydd presennol ac felly, byddwn yn adolygu ein Cynllun Corfforaethol bob blwyddyn er mwyn caniatáu i ni lunio Amcanion Gwella ystyrlon yng nghyswllt ein Blaenoriaethau Strategol o flwyddyn i flwyddyn.

Rydym yn cydnabod bod gwrando ar eich barn chi yn hollbwysig, os yw'r Gwasanaeth am barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon a gwell, i'ch cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel. Buaswn yn eich annog chi i gyd i roi gwybod i ni beth rydych chi'n meddwl o'n Blaenoriaethau Strategol a'r Amcanion Gwella rydym wedi ymrwymo iddynt yn 2017/2018.



**Y Cynghorydd Janice Dudley**
Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Chris Davies QFSM MBA**
Prif Swyddog Tân

# Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Sefydlwyd y gwasanaeth yn 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn sgil uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg.**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys:

Mae'r Gwasanaeth yn ymestyn ar draws bron i ddwy ran o dair o arwynebedd Cymru, ac mae'n cynnwys ardal wledig yn bennaf o 4,500 milltir sgwâr (11,700 km2), mae'n cynnwys 58 o orsafoedd tân ac mae'n cyflogi 1,400 o staff. Y Gwasanaeth hwn yw'r trydydd o ran maint yn y Deyrnas Unedig, ar ôl Gwasanaethau Tân yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ceir amrywiaeth o risgiau yn ardal y Gwasanaeth, sy'n amrywio o'r diwydiannau petrogemegol yn Aberdaugleddau i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae cymuned ffermio sylweddol hefyd a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd a lled yr ardal.

Y rhain, ynghyd ag arfordir hir a dyfrffyrdd mewndirol, yw rhai o'r risgiau penodol a wynebir gan y Gwasanaeth.

## Y Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw tîm uwch reolwyr y Gwasanaeth, a arweinir gan y Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Dirprwy Brif Swyddog Tân a dau Brif Swyddog Cynorthwyol.



**Chris Davies**
Prif Swyddog Tân
*Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig*



**Mick Crennell**
Dirprwy Brif Swyddog Tân
*Cyfarwyddwr Cyflenwi*



**Kevin Jones**
Prif Swyddog Cynorthwyol
Dros dro
*Cyfarwyddwr Adnoddau*



**Rob Quin**
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
*Cyfarwyddwr Cymorth a Gwella Gweithredol*

## Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r chwe Awdurdod Lleol yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe).

Maent yn atebol yn gyhoeddus ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i gynnal gwasanaeth tân ac achub ar gyfer ein cymunedau, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau canlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- Gorchymyn (Cynllun Cyfuno) Canolbarth a Gorllewin Cymru 1995.
- Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) Cymru 2009.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016.

Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n medru ymdrin yn effeithiol â galwadau am gymorth, os oes tân neu argyfwng arall yn codi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth, yr Awdurdod Tân a chyfrifoldebau ein Bwrdd Gweithredol trwy fynd i'n gwefan: **www.tangcg.gov.uk**

# - Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a

## GWELEDIGAETH

Bod yn Arweinydd Byd ym maes Ymateb i Argyfwng a Diogelwch Cymunedol.

## CENHADAETH

Ymgysylltu, cysylltu, datblygu ac ysbrydoli pobl i ddarparu gwasanaeth rhagorol.

## GWERTHOEDD

- Gwneud y peth iawn.
- Trin pobl â pharch.
- Perfformio'n rhagorol.

GWASANAETH TÂN AC ACHUB Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales FIRE AND RESCUE SERVICE

# Blaenoriaethau

## Byddwn yn cyflawni hyn trwy

Gweithio tuag at 12 Amcan Gwella yn 2017/2018.

## BLAENORIAETHAU

- Cydweithio.
- Arloesedd.
- Gwella'r Modd y Darparwn ein Gwasanaethau.
- Grymuso ein Staff.
- Cynaliadwyedd.
- Gwella ein Hasedau a'n defnydd o Adnoddau.
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

# - Ein Perfformiad?

**Dros y degawd diwethaf, trwy Gynllunio ar gyfer Gwella a Lleihau Risg, gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau y cawsom ein galw i'w mynychu, a gwell canlyniadau i'r rheiny yr effeithiwyd arnynt a'r cymunedau lle maent yn digwydd.**

Mae'r tabl yn dangos canran y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau, anafiadau a marwolaethau dros y degawd diwethaf sy'n rhoi darlun clir o'n llwyddiant.

Rydym yn cydnabod nad yw ein lefelau salwch o hyd lle'r hoffem iddynt fod ac o ganlyniad rydym wedi gosod targedau heriol ar gyfer y dangosydd hwn dros y 5 mlynedd nesaf.

| Dangosydd Perfformiad | Cyfartaledd 2005/06 i 2009/10 | Cyfartaledd 2011/12 i 2015/16 | Canran gyfartalog y gostyngiad 2010/11 i 2015/16 | Targed Cyfartalog 2020/2021 | Gostyngiad Targed (%) 2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob Tân** FRS/RRC/S/001 (i) | 6184 | 3713 | -10.7% | 2970 | -20% |
| **Pob Ffug Alwad** FRS/RRC/S/001 (ii) | 5232 | 4500 | -2.8% | 4073 | -10% |
| **Pob Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd** FRS/RRC/S/001 (iii) | 1349 | 1065 | 0.0% | 959 | -10% |
| **Pob Galwad Arall** FRS/RRC/S/001 (iv) | 3709 | 3796 | 8.0% | | Targed heb ei osod |
| **Marwolaethau ac Anafiadau ym mhob Tân** FRS/RRC/S/002 (i) | 115 | 74 | 5.7% | 67 | -10% |
| **Marwolaethau ac Anafiadau ym mhob Tân Damweiniol** FRS/RRC/S/002 (ii) | 101 | 69 | 11.3% | 62 | -10% |
| **Y Ganran o Danau mewn Anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn** FRS/EFR/S/003 | | 87.6% | 0.1% | | Cynnal targed o 87% os yn bosibl |

# - Targedau Perfformiad 2017/2018

**Rydym wedi gosod targedau heriol ond realistig ar gyfer 2017/2018 ymlaen drwy wneud cyfrifiad sy'n caniatáu ar gyfer amrywiadau o ran gweithgareddau o un flwyddyn i'r llall.**

Credwn mai'r dull gorau o fesur perfformiad yw ystyried tueddiadau tymor hwy ac nid y perfformiad blynyddol yn unig. Gan hynny, roeddem wedi gosod targed lleihau wedi'i seilio ar gyfartaledd dros gyfnod o bum mlynedd sy'n caniatáu ar gyfer 'cynnydd sydyn' mewn gweithgarwch a allai gael ei achosi gan y canlynol:

- Gwanwyn a haf eithriadol o sych - sy'n arwain at gynnydd mewn tanau glaswellt a choetir;
- Gwanwyn a haf eithriadol o wlyb - sy'n arwain at nifer anarferol o isel o danau glaswellt a choetir;
- Cyflwyno deddfwriaeth newydd neu weithgareddau diogelwch cymunedol sy'n effeithio ar nifer yr Anafiadau, Marwolaethau mewn Tanau a Ffug Alwadau.

Pennir y targedau tymor hir drwy nodi'r nifer cyfartalog o ddigwyddiadau a fynychwyd dros gyfnod o bum mlynedd o 2010/2011 i 2015/2016, ac yna gosod targed lleihau ar sail y ffigwr cyfartalog i'w gyflawni erbyn 2021/2022.

Byddwn yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau hyn bob chwarter ac yn adolygu ac yn diwygio'r rhain yn ffurfiol yn ôl y gofyn ym Medi 2018 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn realistig ac yn heriol.

Rydym yn ymateb i tua
**13000**
o ddigwyddiadau bob blwyddyn

**Mae cyfanswm nifer y Tanau yr ydym yn ymateb iddynt wedi'i leihau**
**67%**
er 2006

# Y Pwysau sy'n ein Hwynebu

**Ers 2006 rydym wedi lleihau ein cyllideb o**

**20%**

**sef £9 miliwn**

**Rydym wedi llwyddo i wneud hyn trwy leihau ein gwariant ar:**

Criwiau wedi lleoli yng ngorsafoedd o **£3,630,000**

Staffio o **£1,971,000**

Gwella ein prosesau busnes a wnaeth arbedion o **£3,416,000**

## Caledi a Thwf

Bydd angen cyflawni ein gweledigaeth ar adeg o wasgu ariannol a galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus.

Bydd cael llai o arian yn ei gwneud yn anos i ni ddarparu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Mae sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector eraill ledled canolbarth a gorllewin Cymru yn wynebu'r pwysau hyn ac rydym yn ymwybodol iawn nad ydym yn rhoi pwysau ac yn gwthio costau yn anfwriadol ar sefydliadau neu ddarparwyr eraill.

## Ein Cyllideb

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu'r arwynebedd daearyddol mwyaf yng Nghymru a Lloegr - 12000 cilometr sgwâr, sy'n cynnwys bron i hanner arfordir Cymru - tua 650 cilometr o arfordir.

Mae'r ardal wledig wasgaredig yn effeithio ar gostau rhedeg Gwasanaeth effeithiol ac effeithlon ac mae hyn, ochr yn ochr â hyd yr arfordir, yn golygu y bydd y gost am bob pen yn y boblogaeth yn fwy na chostau Gwasanaethau eraill mewndirol a llai.

Er gwaethaf heriau'r ardal ddaearyddol, ein 'cost yr orsaf' ni yw'r pedwerydd isaf a'n 'cost y cilometr sgwâr' yw'r ail rataf yng Nghymru a Lloegr. Dros y deng mlynedd diwethaf rydym wedi arbed £9 miliwn, sy'n cyfateb i ostyngiad o 20% yn ein cyllideb gyffredinol.

Cyflawnwyd yr arbedion hyn drwy newid y ffordd rydym yn criwio rhai o'n gorsafoedd, cyflawni arbedion yn yr adran ganolog a mireinio rhai o'n prosesau busnes. Hyd yn hyn rydym wedi gallu arbed arian heb gael effaith negyddol ar y gwasanaethau a ddarparwn.

Ers 2006, gwaredwyd 102 o swyddi mewn gorsafoedd (27%) (heb ddiswyddiadau). Cyflawnwyd hyn drwy newid y systemau criwio mewn amryw o orsafoedd tân gan greu arbedion effeithlonrwydd gwerth £3,630,000 hyd yn hyn. Cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd pellach drwy leihau nifer y staff canolog, gan arbed £1,971,000, gyda'r effaith o ostwng nifer y swyddi rheolwyr uwch a rheolwyr canol gan 34%, a newidiadau mewn prosesau a gweithdrefnau busnes cyfwerth â £3,416,000.

Cyflawnwyd y rhain drwy dri ymarferiad pwysig sef adolygiad cynhwysfawr o bob llinell gyllideb a gynhaliwyd yn 2008, gyda chyfraniad llwyr Aelodau'r Awdurdod Tân, gan chwilio am arbedion effeithlonrwydd; yn dilyn hynny, rhwng 2009-2011, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol a thrylwyr o strwythurau a pholisïau pob adran, drwy gynnal Rhaglen Adolygu Gwasanaethau (RhAG); ac mae Adolygiad Gwasanaethau cyflawn a seiliedig ar dystiolaeth ar waith ar hyn o bryd, gan roi sylw i feysydd a phatrymau risg, sut mae dylanwadau allanol yn effeithio ar y gwasanaeth a darparu'r gwerth gorau ym mhob adran.

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub hwn yn costio £4 y person y mis, neu ddim ond 13c y diwrnod.

Rydym o'r farn fod hwn yn cynnig gwerth aruthrol am arian ac, yn ôl arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar, mae'n ymddangos fod y cyhoedd o'r un farn. Fodd bynnag, does dim osgoi'r ffaith ein bod ni'n wynebu dyfodol ariannol sy'n fwy heriol eto ac fel gwasanaeth sector cyhoeddus gwyddom y bydd yn rhaid i ni chwarae ein rhan drwy wneud arbedion effeithlonrwydd pellach.

# Datblygu ein Cynllun

Mae ein gweithgarwch ymateb meddygol, wedi cynyddu **64%** ers 2006

**Yn y gorffennol, rydym wedi llunio Cynllun Strategol pum mlynedd a Chynllun Gwella Blynyddol i gyd-fynd ag ef. Gyda chyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi manteisio ar y cyfle i adolygu ein proses gynllunio a chreu Cynllun Corfforaethol sengl ac integredig ar gyfer 2017-2022.**

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu ein Blaenoriaethau Strategol pum mlynedd (2017-2022) a'n Hamcanion Gwella ar gyfer 2017/2018.

Wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022 rydym wedi ystyried:

- Y gwelliannau a wnaethom wrth ddarparu'r
- Cynlluniau Strategol a Chynlluniau Gwella Blynyddol blaenorol.
- Beth mae ein cymunedau yn ei ddweud wrthym.
- Beth mae ein staff yn ei ddweud wrthym.
- Yr adnoddau sydd ar gael i ni.
- Barn ein partneriaid a phwysigrwydd cydweithio.
- Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Ein gofynion deddfwriaethol, yn cynnwys:
  - *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.*
  - *Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016.*
  - *Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.*
  - *Cydnerthedd Cenedlaethol.*
  - *Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru Gyfan.*
  - *Safonau'r Gymraeg.*

## Datganiad ynghylch Llesiant

Rydym yn croesawu'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol hwn, rydym wedi ystyried sut y byddwn ni'n cyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Wrth fabwysiadu'r dyletswyddau a bennwyd yn y Ddeddf, rydym wedi'n herio'n hunain i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, heb gyfaddawdu ar y gwasanaeth a ddarparwn.

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2017-2022 yn amlinellu ein saith Blaenoriaeth Strategol a 12 Amcan Gwella. Datblygwyd y Blaenoriaethau Strategol a'r Amcanion Gwella hyn trwy gyfres o weithdai gyda staff, Aelodau Etholedig a Chyrff Cynrychioliadol. Ar ben hynny, ystyriwyd yr Amcanion Gwella gan Bwyllgorau Craffu y Cynghorau ac fel rhan o gyfnod ymgynghori ehangach â'n cymunedau. Drwy'r broses hon, rydym yn hyderus bod ein Blaenoriaethau Strategol a'n Hamcanion Gwella yn ein helpu i gyfrannu i'r saith nod llesiant a ddisgrifir yn y Ddeddf.

Yn rhan o'r Ddeddf, rydym yn bartner statudol i chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae llawer o'r gweithgareddau a gynigir gennym â chydberthynas rhyngddynt a chânt eu darparu trwy bartneriaeth. Wrth i ni hyrwyddo ein Blaenoriaethau Strategol a'n Hamcanion Gwella, byddwn yn parhau i gysylltu â'n partneriaid a gwrando arnynt er mwyn llywio'r gwasanaethau a ddarparwn yn y dyfodol.

Drwy'r Cynllun hwn byddwn yn amlygu sut mae ein Hamcanion Gwella yn cyfrannu at y Nodau Llesiant.

# Datblygu ein Cynllun



**Dros y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi cynnal**

**105,000**

**o Archwiliadau Diogelwch Cartref yn ein cymunedau**

## Ein Blaenoriaethau Strategol

Mae ein Blaenoriaethau Strategol (2017-2022) yn llywio'n taith am y pum mlynedd nesaf. Mae ein Gwasanaeth yn chwarae rôl hanfodol bwysig yn y gymuned a datblygwyd ein blaenoriaethau mewn ymgynghoriad â'r staff, cynrychiolwyr undebau llafur, uwch swyddogion a'r aelodau o'n Hawdurdod, gan roi ystyriaeth i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ein Hamcanion Gwella

Bob blwyddyn, fel rhan o'n proses gynllunio, rydym yn datblygu Amcanion Gwella a luniwyd i'n helpu i gyflawni ein Blaenoriaethau Strategol.

Mae ein Hamcanion Gwella yn dweud wrth ein staff, cymunedau a rhanddeiliaid pa fuddion a ddarperir iddynt yn y flwyddyn i ddod.

## Asesiadau o Berfformiad Blynyddol

Erbyn diwedd Hydref bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol. Mae ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol yn dweud wrth ein staff, cymunedau a rhanddeiliaid pa ddeilliannau a buddion a ddarparwyd o gymharu ag Amcanion Gwella'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, mae ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol yn nodi sut rydym wedi cyfrannu i'r nodau Llesiant, a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Dangosyddion Perfformiad Statudol Llywodraeth Cymru.

Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016.

Siarter Cymru ynghylch Ymateb i Danau mewn Anheddau.

Fframwaith Gwella Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.
Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
Cynllun Rheoli Asedau.

Cynllun Corfforaethol (Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd).

Blaenoriaethau Strategol.

Amcanion Gwella.


Prosiectau Corfforaethol.

Perfformiad a Monitro Ariannol (Swyddfa Archwilio Cymru).
Perfformiad a Monitro Gwasanaethau (Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad)
Data ynghylch Darpariaeth y Gwasanaeth -
yn cynnwys Risgiau Gweithredol, Dangosyddion Perfformiad Lleol a'r Sector, Bylchau o ran Sgiliau.
Adolygiadau Datblygiad Unigol.
Asesiad gan Gymheiriaid. Adroddiadau Craffu.


# Ein Blaenoriaethau Strategol

**Ers 2006, mae ein presenoldeb**

**mewn** tanau bwriadol wedi **GOSTWNG** o




**mewn** tanau damweiniol wedi **GOSTWNG** o




i danau **mewn** anheddau wedi **GOSTWNG** o




i danau **mewn** safleoedd proffesiynol wedi **GOSTWNG** o




**Mae ein Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2017-2022 yn sicrhau y byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer ein cymunedau.**

Mae ein saith Blaenoriaeth Strategol, a amlinellwyd, yn manylu ynghylch ein hymrwymiad i gyflawni yn unol â thargedau heriol mewn amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac ariannol sy'n newid yn barhaus.

## Cydweithio

Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn ymwneud yn uniongyrchol â sut rydym ni'n gweithio gydag eraill.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ystyrlon ac effeithiol a'r angen i ddatblygu a chynnal

cynlluniau ar y cyd â phartneriaid allweddol.

Bydd cydweithio yn gymorth hefyd i gyflawni gwell canlyniadau i'n cymunedau ac yn ein cynorthwyo i ddarparu ein gwasanaethau mewn modd gwell, a mwy effeithiol ac effeithlon o ran cost.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ymgeisio i gael ein cydnabod fel partner galluogi allweddol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach.

## Arloesedd

Mae arloesedd yn hanfodol i'n galluogi ni i ddatblygu a chynnal Gwasanaeth sy'n bodloni anghenion ein cymunedau yn y presennol a'r dyfodol.

Bydd atebion arloesol yn ganolog wrth ddarparu isadeiledd, a fydd yn ein cynorthwyo ni wrth ddatblygu a gwella ein Gwasanaeth.

Bydd yr heriau ariannol digynsail sy'n ein hwynebu ni yn gofyn i ni fod yn arloesol a mabwysiadu ffyrdd newydd o feddwl, fel y medrwn fod ar flaen y gad wrth ymateb i argyfwng.

Rydym yn ymrwymedig i ddarganfod ffyrdd arloesol o weithio, er mwyn sicrhau bod ein cymunedau, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl gan eu gwasanaeth tân ac achub.

## Gwella'r Modd y Darparwn ein Gwasanaethau

Byddwn yn parhau i addasu ein gwasanaethau i gwrdd â'r heriau ariannol parhaus a wynebwn.

Byddwn yn gweithio i glustnodi a diwallu gofynion newydd, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu Gwasanaeth sy'n aros ar flaen y gad o ran datblygu'r gwasanaethau a ddarperir.

Byddwn yn parhau i amrywio'r ystod o weithgareddau a chynlluniau a gyflawnwn, i adlewyrchu risgiau ein cymunedau, ein tirweddau gwledig a threfol a'n hadnoddau naturiol.

## Gwneud gwell defnydd o'n Hasedau a'n Hadnoddau

Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr, fodd bynnag, er mwyn i'n staff fod yn effeithiol mae angen bod y cyfleusterau a'r adnoddau gorau ar gael ar eu cyfer nhw.

Credwn fod angen i'n hasedau ffisegol fod yn effeithlon ac yn effeithiol, er mwyn cefnogi ac ymateb i ddarparu ein gwasanaethau ledled canolbarth a gorllewin Cymru.

Byddwn yn defnyddio ein hasedau ffisegol i weithio gyda phartneriaid, lle bo hynny'n ymarferol, i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

# Ein Blaenoriaethau Strategol

**Mae 8% o'n gweithgarwch,** tua 1000 o ddigwyddiadau'r flwyddyn yn Wrthdrawiadau Traffig Ffyrdd



**Mae tua 185,000**



**o bobl yn teithio llai na 10 cilomedr i'r gwaith ledled ein hardal bob dydd.**

## Cynaliadwyedd

Gwyddom fod ein gweithrediadau'n cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol, ac rydym yn ymrwymedig i leihau unrhyw effeithiau niweidiol lle bydd ein sefyllfa ariannol, ein gweithrediadau a'n hadnoddau'n caniatáu hynny.

Rydym yn ymrwymo i groesawu ynni adnewyddadwy, er mwyn cefnogi'r agenda cynaliadwyedd a'r amgylchedd.

Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd yn nodi'r egwyddorion pennaf, y cynigion a'r camau gweithredu sy'n ofynnol i leihau effeithiau amgylcheddol gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu gyda'n staff, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, gan ddilyn ymagwedd bositif at gyfathrebu trwy fod yn agored, yn onest, yn hygyrch ac yn atebol gyda'n cynulleidfaoedd i gyd, ac arddangos y lefelau uchaf o uniondeb proffesiynol bob amser.

Byddwn yn datblygu gweithlu mwy effeithiol sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys, eu hysbysu a'u hysgogi, trwy ddatblygu sianelau cyfathrebu mewnol, sy'n cyfleu'r Cynllun Corfforaethol yn effeithiol.

## Grymuso ein Staff

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon diwylliant ein Gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau bod ein staff wedi eu hyfforddi i'r safonau uchaf a'u bod yn medru cynnal eu galluoedd, trwy gyfrwng dysgu proffesiynol parhaus.

Byddwn yn darparu llwybrau clir i ddatblygu gyrfa a'r amgylchedd gwaith gorau posibl ar gyfer eu lles proffesiynol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod strwythur y sefydliad yn adlewyrchu anghenion ein gwasanaeth a'n cymunedau, trwy roi arferion gwaith hyblyg ar waith, sy'n cefnogi ffordd o fyw iach a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.


Mae cyfathrebu yn flaenoriaeth allweddol wrth sicrhau bod ein staff, ein rhanddeiliaid, ein cymunedau a'n partneriaid yn ymwybodol o'r gwaith a wnawn, yr heriau a wynebwn a'n llwyddiannau.

Credwn y medrwn gyfleu ein negeseuon allweddol yn effeithiol, trwy sicrhau ffocws parhaus ar addysg, ymgysylltu a chyfathrebu.

**Dros y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi ymwneud â dros**

**160,000**

**o bobl ifanc trwy amrywiaeth o raglennu addysgiadol ac atal.**



# Ein Hamcanion Gwella

Yn ystod 2017/2018 byddwn yn cyflawni'r 12 Amcan Gwella canlynol, y credwn y byddant yn lleihau risg ac yn gwella diogelwch ein cymunedau, tra'n darparu gwasanaethau ardderchog sy'n bodloni risgiau ac anghenion ein cymunedau.

Mae ein gweithgarwch achub mewn llifogydd a dŵr yn ddeinamig iawn ac yn amrywio o 200 galwad i tua 700 o Alwadau'r Flwyddyn

## Un

Darparu ymyrraeth diogelwch yn y cartref gyfannol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## Dau

Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru.

## Un Ar Ddeg

Digido - Defnyddio technoleg er mwyn arloesi, cydweithredu a grymuso.

## Deuddeg

Gwella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd.

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

## Tri

Cyflawni ein rhan ni o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

## Pedwar

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'n rôl ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Pump

Cyfrannu i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) newydd a'i weithredu.

## Chwech

Datblygu ymhellach ganfyddiadau Adolygiad Risg ac Asesiad Strategol y Gwasanaeth.

## Saith

Adolygu a datblygu ein hymateb i lifogydd.

## Wyth

Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes.

## Naw

Buddsoddi yn ein pobl.

## Deg

Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau.

## Blaenoriaethau Strategol

| Amcanion | Cydweithio | Arloesedd | Gwella'r Modd y Darparwn ein Gwasanaethau | Grymuso ein Staff | Cynaliadwyedd | Gwella ein Hasedau a'n defnydd o Adnoddau | Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Un | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Dau | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Tri | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| Pedwar | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pump | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Chwech | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Saith | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Wyth | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Naw | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Deg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Un Ar Ddeg | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Deuddeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |


GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Amcanion | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel fydeang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Un | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Dau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Tri | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Pedwar | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pump | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| Chwech | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Saith | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| Wyth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Naw | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Deg | ✓ | ✓ | | | | | |
| Un Ar Ddeg | ✓ | | ✓ | | ✓ | | |
| Deuddeg | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | |

# Amcan Un

**Darparu ymyrraeth diogelwch yn y cartref gyfannol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.**




## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi datblygu ein gweithgareddau i wella diogelwch rhag tân yn y cartref. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy gynnal Gwiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (GDRhT) am ddim â phwyslais arbennig ar bobl agored i niwed a phobl sy'n wynebu risg uchel.

Rydym yn cydweithio ag ystod eang o asiantaethau partner sydd â chysylltiadau â phobl agored i niwed. Mae hyn yn caniatáu i ni gyrraedd cartrefi na allai fod gennym fynediad iddynt na gwybodaeth amdanynt fel arall. Mae hon yn elfen bwysig iawn o'n hagenda a rennir ar gyfer cymunedau mwy diogel ac yn un yr ydym am ei hehangu hyd yn oed ymhellach.

Y llynedd, dechreuom ehangu ein rôl o ran hyrwyddo negeseuon iechyd a diogelwch ar ran ein partneriaid fel rhan o'n hymweliadau diogelwch yn y cartref. Treialwyd hyn mewn rhai o ardaloedd ein Gwasanaeth a chafodd dderbyniad da gan bartneriaid, staff a'r gymuned.

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Dengys ein data fod gostyngiad hirdymor canlyniadol mewn Tanau Damweiniol mewn Anheddau sy'n dangos bod darparu cyngor, addysg ac offer yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bobl rydym yn ymgysylltu â nhw. Mae'n fraint gennym fod yn Wasanaeth mae pobl yn ymddiried ynddo ac yn ei werthfawrogi sydd â hanes hir o ddarparu cyngor a chymorth proffesiynol. Bwriadwn ddefnyddio'r enw da hwn a'n cysylltiadau â chartrefi sy'n agored i niwed i sicrhau'r effaith orau posibl.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith cydweithredol a wneir eisoes i ehangu'r gwaith o ddarparu'r cyngor a'r ymyriadau y mae ein partneriaid yn dymuno'u hyrwyddo er mwyn gwella diogelwch ac iechyd ein cymunedau. Rydym eisiau i'r cyngor a'r ymyriadau rydym yn eu darparu i bobl agored i niwed adlewyrchu agwedd gyfannol at ddiogelwch cymunedol.

Byddwn yn canolbwyntio adnoddau gwerthfawr ar y rhai sydd â'r angen mwyaf ac yn darparu ymyriadau sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant ac yn gwella diogelwch pawb rydym yn ymgysylltu â nhw. Bwriad y cysyniad hwn sef 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' yw gwella ffyrdd o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Mae'r datblygiad hwn eisoes ar waith ond bydd yn ddeinamig ac yn datblygu i adlewyrchu ein blaenoriaethau ni a'n partneriaid:

- Bydd ymyriad diogelwch cartref sy'n arloesol ac yn fwy cyfannol yn cael ei gyflwyno ar draws y Gwasanaeth i ddisodli'r Gwiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref traddodiadol.
- Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r gwelliant yn ein hymyriad cymunedol â'n staff, ein partneriaid allanol a'r cymunedau a wasanaethwn.
- Byddwn yn ehangu rôl Gwirfoddolwyr Diogelwch Cymunedol i ddarparu cymorth lleol parhaus i'r bobl hynny sydd wedi elwa ar ein hymyriadau.
- Byddwn yn ehangu'r hyfforddiant a ddarperir i'n hasiantaethau partner er mwyn cefnogi ein hymyriadau diogelwch cymunedol.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?


- Gwerthuso ansawdd yr ymyriadau a ddarparwn i'r aelodau o'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.
- Monitro'r adborth a gawn gan ein partneriaid, staff a'r gymuned ynghylch y budd a gynigir gan ein hymyriadau a sut byddant yn lleihau risg.
- Defnyddio ein data ein hunain ar Danau Damweiniol mewn Anheddau ond hefyd ddata partneriaid a data cenedlaethol i fesur effaith hirdymor ein dull gweithredu newydd.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd cymunedau yn fwy diogel ac yn iachach o ganlyniad i'n cyngor a'n hymyriad.

# Amcan Dau

## Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yn cydlynu ystod eang o ymyriadau gan y Gwasanaeth i leihau'r risg o danau a gaiff eu cynnau'n fwriadol. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan y Bwrdd Lleihau Tanau Bwriadol Strategol, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, yr Heddlu, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

Dros y blynyddoedd diwethaf cawsom lwyddiant sylweddol wrth leihau nifer y tanau bwriadol ac, lle bu heriau penodol, gwelsom fanteision dull gweithredu cydlynol. I adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru III, a luniwyd gan y Bwrdd Lleihau Tanau Bwriadol Strategol, yn cydlynu cynllun cyflawni i leihau risg tanau bwriadol ymhellach ar draws nifer o feysydd penodol.

Roedd menter 'Dawns Glaw', sef un o dargedau cyflawni'r cynllun cyflawni, wedi darparu ymateb amlasiantaeth a dargedwyd â'r nod o leihau nifer y tanau gwair bwriadol rhwng Chwefror ac Ebrill. Cafodd lwyddiant mawr yn 2016, yn enwedig o ran tanau mwy sy'n dinistrio ardaloedd helaeth o laswelltir a choedwigoedd.

Mae Ymgyrch BANG (Bihafiwch Adeg Nos Galan Gaeaf) yn targedu'r problemau sy'n gysylltiedig â choelcerthi cyhoeddus answyddogol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o gwmpas Nos Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt. Mabwysiadodd yr ymgyrch hwn ddull gweithredu amlasiantaeth a gwelwyd llwyddiant arwyddocaol o ran lleihau nifer y galwadau i'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu sy'n gysylltiedig â choelcerthi ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r ddau wasanaeth brys mewn cymunedau a fu'n amharod i'w derbyn yn y gorffennol.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Mae llwyddiant menter Dawns Glaw yn 2016/2017 wedi darparu gwybodaeth ar gyfer strategaeth ymyriad ynghylch tanau gwair bwriadol yn y dyfodol.

- Byddwn yn parhau i gynnal y gwaith partneriaeth, y rhaglenni addysg ac ymyriad ardderchog a roddwyd ar waith i leihau risg, wrth i danau bwriadol barhau i effeithio ar gymdeithas, ein treftadaeth a'n hamgylchedd.
- Bydd ymyriadau ar gyfer ieuenctid mewn ardaloedd uchel eu risg yn parhau oherwydd gwelwyd budd mewn gweithgareddau addysg a difyrru â grwpiau targed.
- Bydd trefniadau Cymorth i Reoli Tir hefyd yn cael sylw yn 2017/2018 wrth i ni ddatblygu'r cysylltiadau a sefydlwyd trwy Ddawns Glas a dylanwadu ar strategaethau Rheoli Tir er mwyn lleihau'r risg o losgi direolaeth. Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n weithredol gyda phartneriaid a grwpiau gwirfoddolwyr cymunedol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o danau bwriadol.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Drwy gydol 2017/2018 byddwn yn:
- Parhau i gyflawni amcanion Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru III.
- Gwella'r wybodaeth sydd gennym am raddfa a chwmpas tanau bwriadol ledled canolbarth a gorllewin Cymru.
- Lleihau'r risg o danau bwriadol mewn adeiladau.
- Rheoli'r risg o ganlyniad i gynnau tân yn fwriadol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Lleihau'r risg o danau bwriadol a throseddau casineb yn erbyn pobl ac eiddo.
- Ehangu ein rhwydwaith o grwpiau cymunedol sy'n hyddysg ac yn weithredol o ran lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?


Mae'r targedau lleihau yn gysylltiedig â Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru III.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd ein cymunedau yn fwy diogel rhag risg tanau bwriadol a bydd effaith gymdeithasol ac economaidd y gweithgaredd hwn yn cael ei lleihau Bydd mwy o gyfraniad cymunedol hefyd drwy gydweithio â'n partneriaid.

# Amcan Tri

## Cyflawni ein rhan ni o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Rydym yn delio â chanlyniadau Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf), a'r effaith a gânt ar fywyd dynol a'n cymunedau yn ddyddiol am ein bod ni'n achub llawer mwy o bobl sydd wedi'u hanafu mewn gwrthdrawiadau nac mewn tanau.

Mae addysg ac ymyriad yn allweddol i leihau nifer y gwrthdrawiadau ar ein ffyrdd ac mae gan y Gwasanaeth rôl a rennir wrth gyflawni hyn ochr yn ochr â phartneriaid diogelwch ffyrdd eraill.

Er bod diogelwch ar y ffyrdd wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn 2014 roedd cyfanswm o 8,208 o bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu o ganlyniad i wrthdrawiadau - cafodd 103 o bobl eu lladd a 1,160 o bobl eu hanafu'n ddifrifol yng Nghymru.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Mae Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru yn gosod targedau diogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020. Fel Gwasanaeth rydym yn bartner allweddol wrth alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'i thargedau drwy ddarparu ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd effeithiol a thargedu'r ardaloedd cywir, yn y ffordd gywir, er mwyn lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol.

Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi datblygu Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer 2015-2020 i gefnogi nodau Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.

Rydym wedi nodi beth allwn ei wneud i gefnogi ein partneriaid a byddwn yn cyfeirio ein hymyriadau at Feicwyr Modur, Pobl Ifanc a Gyrwyr Hyn.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Drwy gydol 2017/2018 byddwn y:

- Darparu gweithgareddau i wella diogelwch beicwyr modur ar ein ffyrdd drwy annog pobl i gymryd rhan mewn Cyrsiau Diogelwch Beiciau Modur.
- Datblygu Cwrs Ymyrraeth Diogelwch ar y Ffordd Amlasiantaeth i Bobl Ifanc a fydd yn targedu'r bobl ifanc hynny y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel oherwydd eu hymddygiad ar y ffyrdd.
- Sicrhau bod gweithgareddau addysg diogelwch ar y ffyrdd ac ymyriadau yn targedu gyrwyr hyn.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Drwy gydol 2017/2018 byddwn yn:


- Defnyddio data cenedlaethol ar Wrthdrawiadau Traffig Ffyrdd ac Anafiadau i fonitro canlyniadau pob ymyriad diogelwch ar y ffyrdd.
- Datblygu ein hymyriadau drwy werthusiadau ôl-ymyriad.
- Defnyddio'r targedau a geir yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru:
    - Gostyngiad o 40% yng nghyfanswm y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru erbyn 2020.
    - Gostyngiad o 25% yn nifer y beicwyr modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru erbyn 2020.
    - Gostyngiad o 40% yn nifer y bobl ifanc (16-24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru erbyn 2020.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Ffyrdd mwy diogel yng nghanolbarth a gorllewin Cymru a'r tu hwnt.

# Amcan Pedwar

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'n rôl ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Rydym yn croesawu cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ddeddf arloesol a gweledigaethol. Rydym yn gwbl ymrwymedig i'r ddeddfwriaeth a'r hyn y cafodd ei llunio i'w gyflawni. Rydym yn cefnogi creu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ac yn cymryd ein rôl fel partner statudol yn gwbl o ddifrif. Yn wir, gwelwn fod hwn yn gyfle i bartneriaid gyflawni diben cyffredin trwy gydweithio gwirioneddol er budd ein cymunedau.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn bod y partneriaid statudol a'r cyfranogwyr a wahoddwyd yn cynnal Asesiad Llesiant yn yr ardal a chreu Cynllun Llesiant i lywio'r ddarpariaeth, sy'n cefnogi'r Nodau Llesiant rhychwantol a nodir yn y Ddeddf. Dylid cyflawni hyn gan ddefnyddio egwyddor 'Datblygu Cynaliadwy'.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Ar hyn o bryd, mae cyrff cyhoeddus yn darparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd yn gymharol annibynnol. Er bod tipyn o gydweithio'n digwydd er budd ein cymunedau (mae rhai enghreifftiau ardderchog o flaengareddau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol), nid yw'r model cyfredol yn darparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a chydlynol bob amser.

Hefyd, gwneir penderfyniadau nad ydynt, o reidrwydd, yn ystyried y tymor hir a'r effaith y gall penderfyniadau heddiw ei chael ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio cyflawni dull gweithredu llawer mwy blaengar tuag at ddarparu gwasanaethau ac rydym yn llwyr gefnogi hyn.

Bellach, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu ffurfio a phennwyd eu strwythurau. Maent wedi datblygu cylchoedd gorchwyl a llunio amcanion interim tymor byr tra bydd yr Asesiad Llesiant newydd ar waith a datblygwyd Cynllun Llesiant mwy hirdymor. Rydym yn gwbl ymrwymedig i'r broses hon ac mae gennym gynrychiolaeth ar lefel Cyfarwyddwr ar bob BGC a chwaraewn ran weithredol ynddynt. Yn ogystal, rydym yn sicrhau ein bod yn darparu'r gynrychiolaeth a'r adnoddau angenrheidiol i'r is-grwpiau sy'n bodoli i gefnogi'r BGCau.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Llunnir yr Asesiad a'r Cynlluniau Llesiant cyn pen y flwyddyn gyntaf (2017/2018) a chytunir ar amcanion cyffredin y bydd y partneriaid yn y BGC yn ymrwymo iddynt. Mae'n rhaid i bob partner statudol sicrhau yr ymgorfforir amcanion y BGC o fewn ethos y gwasanaethau a ddarparant er mwyn datblygu a gwella iechyd a llesiant y cymunedau a wasanaethant.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?


Datblygir cynllun partneriaeth er budd y gymuned leol. O safbwynt y Gwasanaeth Tân ac Achub dylai hyn leihau'r dyblygu ar draws y chwe Awdurdod Unedol a'n galluogi i gefnogi'r saith Nod Llesiant a chyfrannu iddynt. Mesurir perfformiad yn erbyn y ffactorau a'r dangosyddion llwyddiant drwy'r trefniadau craffu sydd ar waith yn yr Awdurdodau Lleol ac yn ein Hawdurdod Tân ni. Bydd hyn yn sicrhau bod y ffactorau llwyddiant a'r amcanion Llesiant a glustnodwyd wedi cael eu darparu er lles y cyhoedd.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd hyn yn fodd i ni gyfeirio ein trefniadau atal, amddiffyn ac ymateb tuag at y cymunedau a'r unigolion sydd â'r angen mwyaf. Felly, rydym wedi ymgorffori'r saith nod Llesiant yn ein Cynllun Corfforaethol.

# Amcan Pump

## Cyfrannu i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) newydd a'i weithredu.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae ein rhwydwaith presennol yn ddibynadwy iawn ac yn ffordd effeithiol o gyfathrebu. Fodd bynnag, mae'n ddrud ac ond yn addas mewn gwirionedd ar gyfer cyfathrebiadau llais ac mae'r gallu i drosglwyddo data yn gyfyngedig.

Nid yw'r dechnoleg a'r safonau sy'n ofynnol i'w ddisodli â gwasanaeth llwyr weithredol, a all ddarparu ar gyfer gofynion trosglwyddo data y presennol a'r dyfodol, yn bodoli eto.

Gan hynny, mae Swyddfa Gartref y DU, yn unol ag agenda ddigido'r Llywodraeth, wedi cychwyn ar Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP).

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Bydd ESMCP yn darparu system gyfathrebu'r genhedlaeth nesaf, yn cynnwys gwasanaethau llais a data band eang hanfodol, integredig, i'r tri gwasanaeth brys (sef yr Heddlu, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r gwasanaeth Ambiwlans) ac i ddefnyddwyr eraill yn maes diogelwch cyhoeddus.

Yr enw ar y system hon fydd y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN). Bydd ESN yn rhwydwaith cysylltiadau symudol cadarn iawn, â darpariaeth helaeth a swyddogaethau priodol o ran diogeledd a diogelwch y cyhoedd.

Bydd yn caniatáu i'r tri gwasanaeth brys gyfathrebu o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol hyd yn oed.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Dyfarnwyd y prif gontractau ar gyfer darparu'r ESN yn Rhagfyr 2015.

Byddwn yn dechrau'r gwaith paratoi i ganiatáu i ni gael mynediad i'r ESN ar ôl Chwefror 2016. Bydd hyn yn cynnwys prynu'r galedwedd a'r feddalwedd angenrheidiol; paratoi'r rhwydweithiau perthnasol; ynghyd â chynnal sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff.

Unwaith y bydd y gwaith paratoi hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn dechrau trosglwyddo i'r ESN, fesul cam, yn Nhachwedd 2018. Rhagwelir y bydd y trosglwyddo'n cymryd 12 mis a'r dyddiad cwblhau arfaethedig yw Tachwedd 2019 neu oddeutu hynny.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?


Cysylltiad llwyr weithredol â'r ESN.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Ynghyd â'r gwasanaethau brys eraill, bydd gennym rwydwaith a system fydd yn galluogi ymateb i ddigwyddiadau mewn modd integredig. Bydd y cydweithio hwn â'n partneriaid yn sicrhau Gwasanaeth mwy effeithlon a chost effeithiol ac yn gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cymunedau.

# Amcan Chwech

## Datblygu ymhellach ganfyddiadau Adolygiad Risg ac Asesiad Strategol y Gwasanaeth.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Yng Nghynllun Gwella Blynyddol y llynedd (2016/2017), cyflawnom ddau adolygiad arwyddocaol:

- Asesiad Strategol o'r ffactorau allanol sydd â'r potensial i effeithio ar ein Gwasanaeth yn y dyfodol - mae hyn yn cynnwys meysydd ffocws fel yr economi, newidiadau demograffig, poblogaeth sy'n heneiddio, cynlluniau datblygu gofodol a phroffiliau risg ac ati.
- Adolygiad Gwasanaeth o'n swyddogaethau craidd oedd yn golygu archwilio gwreiddiau a changhennau ein Gwasanaeth i nodi meysydd allweddol ar gyfer gwella ac yn ymgorffori Adolygiad Risg strategol.

Bellach, bydd y ddau ddarn o ymchwil yn fodd i ni wneud penderfyniadau seiliedig ar risg ac wedi'u harwain gan dystiolaeth yn y dyfodol, gan nodi meysydd gwella allweddol ar draws ein sefydliad.

Ystyrir bod pedwar cam rhesymegol i'r broses Adolygu Risg:

- Cam 1 - Casglu data, dadansoddi a chrynhoi gwybodaeth - wedi'i gwblhau yn 2016/2017.
- Cam 2 - Datblygu dewisiadau - 2017/2018
- Cam 3 - Gweithredu - o 2018 ymlaen
- Cam 4 - Gwella a Gwerthuso Parhaus.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Bellach, rydym yn cynllunio i gynnal ail gam y gwaith hwn a dechrau datblygu senarios a dewisiadau pwysig yn seiliedig ar y dystiolaeth roeddem wedi'i chasglu

a'i dadansoddi yng Ngham 1. Mae'n bwysig ein bod yn arfer barn broffesiynol wrth drin y data hyn er mwyn sicrhau y datblygir gwybodaeth gywir. Bydd ein gwaith yn cwmpasu cyflwyno gwelliannau yn y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Gwasanaeth wrth i ni fod mor effeithlon â phosibl a sicrhau ein bod ni'n cyfateb ein hadnoddau i'r risgiau yn ein cymunedau.

Drwy nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau mewn modd manwl-gywir a chyfateb ein hadnoddau i'r risgiau hyn, gallwn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwerth ardderchog am arian i'r cymunedau a wasanaethwn.

Bydd ein cymunedau'n cael gwell gwybodaeth am y risgiau rydym ni'n eu hwynebu nawr ac yn y blynyddoedd sydd i ddod. Ar ben hynny, bydd ein cymunedau yn dawelach eu meddwl o wybod ein bod yn darparu'r gwerth gorau gan fod ein hadnoddau yn gymesur â'r risgiau yn ein hardal.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Datblygir y dewisiadau yn 2017/2018, gan lywio ein penderfyniadau o 2018 ymlaen.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, byddwn yn mabwysiadu proses a fydd yn:


- Modelu senarios posibl ac yn gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth a gasglwyd er mwyn cyflawni'r llwyddiant mwyaf posibl.
- Cynnal cynlluniau peilot a/neu dreialon er mwyn pennu'r ffordd orau ymlaen.
- Rhoi'r amcanion y cytunwyd arnynt ar waith.
- Gwerthuso'r canlyniadau.
- Mabwysiadu methodoleg ar gyfer gwella'n barhaus.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd y gwaith hwn yn sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth sydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl i'r cyhoedd yn y dyfodol.

# Amcan Saith

## Adolygu a datblygu ein hymateb i lifogydd.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

O ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, mae galw cynyddol ar ddiffoddwyr tân yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i ymateb i lifogydd, achub pobl ac amddiffyn eiddo rhag effeithiau niweidiol dŵr a llygredd.

Er nad oes, ar hyn o bryd, ddyletswydd statudol ar Wasanaethau Tân ac Achub i fynychu digwyddiadau o'r math hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bellach fod angen sylfaen fwy ffurfiol ar gyfer ymateb i lifogydd. Mae'r llywodraeth yn ystyried ehangu swyddogaethau statudol yr Awdurdodau Tân ac Achub i gynnwys llifogydd ac achub o ddŵr.

Gan ragweld y newid posibl hwn, rydym yn cynnal ymarferiad ar hyn o bryd i benderfynu ar y gofynion hyfforddiant ac offer sydd eu hangen i ymateb yn llawn i'r heriau sy'n codi yn sgil y digwyddiadau sy'n ein hwynebu ac sy'n cynyddu'n gyson. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio ein gwybodaeth a'n profiad i helpu cymunedau i ddiogelu eu hunain rhag effeithiau digwyddiadau yn ymwneud â dŵr.

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ehangu a chynnal a chadw ein hasedau llifogydd/achub o'r dŵr i gyfateb i anghenion cymunedau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru a chefnogi gweithredu ehangach ledled Cymru a'r DU.
- Cynnal a chadw a gwella lefelau cymhwysedd ymatebwyr i lifogydd/achub o'r dŵr i sicrhau bod gan ein diffoddwyr tân gweithredol a'n rheolwyr y sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i allu rheoli digwyddiadau yn effeithiol ac yn ddiogel.
- Darparu arweiniad gweithredol cadarn ac effeithiol i'n diffoddwyr tân.
- Sicrhau bod camau gorchymyn a rheoli effeithiol ar waith.
- Addysgu a chynghori cymunedau, i'w helpu i amddiffyn eu hunain rhag effeithiau llifogydd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu yn sgil digwyddiadau yn ymwneud â dŵr.
- Cynnal asesiadau er mwyn nodi ardaloedd sy'n wynebu perygl llifogydd a chynnig cyngor i feddianwyr a chymunedau.
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a gwirfoddolwyr i sicrhau dull gweithredu amlweddog o ran ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr a'u hatal rhag digwydd.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Yn 2017/2018 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r gofynion hyfforddiant a datblygu rhaglen ddatblygu i sicrhau bod gan ein staff y lefel ofynnol o wybodaeth a sgiliau.
- Adolygu ein fframwaith cymhwysedd Gorchymyn a Rheoli i sicrhau bod ein rheolwyr digwyddiadau'n cael datblygiad ac asesiad priodol mewn perthynas â rheoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr.
- Datblygu mentrau ataliol neu raglenni addysg i helpu'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau i amddiffyn eu hunain rhag effeithiau digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr.
- Adolygu a datblygu ein harweiniad gweithredol safonol.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn gwneud y canlynol:


- Monitro a lledaenu canlyniadau adolygiadau, ymchwiliadau ac ôl-drafod.
- Casglu data rheoli perfformiad.
- Casglu tystiolaeth am ganlyniadau gwell mewn digwyddiadau ac ymarferion gweithredol, a nodir drwy'r system ddysgu weithredol.
- Monitro ac adrodd ar ein perfformiad yn unol â Rhaglen Gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

- Bydd ein diffoddwyr tân wedi'u harfogi'n well, yn fwy parod ac o ganlyniad, yn fwy diogel ac effeithiol.
- Bydd y bobl sy'n byw yn ein cymunedau yn fwy ymwybodol o risg ac yn gallu amddiffyn eu hunain, eu heiddo a'u meddiannau yn well.

# Amcan Wyth

## Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Cyn 2016/2017, yn draddodiadol, mae ein Gweithgareddau Diogelwch Tân i Fusnesau wedi canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith deddfwriaethol a gyflwynwyd gan yr offerynnau statudol amrywiol. Darparwyd hyn drwy raglen archwilio ac arolygu ar sail risg lle yr ymwelir ag eiddo busnes yn ôl lefel asesedig y risg y maent yn ei pheri i fywyd.

Rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghori a chyngor i bartneriaid statudol yn adrannau Trwyddedu a Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol ac yn gweithio ar y cyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Arolygwyr y Goron a Chyfoeth Naturiol Cymru.

O ran Caffael, fe'n hanogir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yn manteisio i'r eithaf ar ein contractau drwy'r siarter Agor Drysau a Pholisi Caffael Cyhoeddus Cymru. Mae posibilrwydd y gallai rhai canllawiau arfer gorau ddod yn statudol.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Hoffem roi ffocws cliriach ar sicrhau bod busnesau yn gallu datblygu ac aros yn weithredol a dod o hyd i ffyrdd o leihau'r baich rheoliadol a osodir ar fusnesau.

Gwyddom nad yw llawer o fusnesau bach a chanolig eu maint yn goroesi tân ac yn dechrau masnachu eto. Bydd ein gweithgareddau amddiffyn yn sicrhau bod y cyngor a roddir o'r safon uchaf, bod ein gweithgarwch gorfodi yn gymesur i'r risg a gyflwynir gan y busnes a'n bod yn cymryd cyn lleied o amser â phosibl i gynnal ein rhyngweithiadau â'r busnes.  Drwy ein gweithgareddau caffael gallwn addysgu ac ymgysylltu â busnesau bach a chanolig eu maint, a llunio tendrau yn y fath fodd fel bod mwy o fynediad i dendrau a gwaith.

Drwy ein Rhaglen Archwilio Diogelwch Tân Busnesau bwriadwn gefnogi, datblygu ac arwain y gymuned fusnes er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd economaidd. Rydym am annog cynaliadwyedd economaidd a chymunedau cydlynus yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

- Byddwn yn ehangu ein rhaglen archwilio diogelwch tân i fusnesau i gynnwys y broses o ddarparu cymorth ac arweiniad i fusnesau.
- Byddwn yn diwygio'r ffordd rydym yn darparu ein gweithgareddau cydymffurfio rheolaidd i fusnesau drwy weithredu'r broses archwilio fer.
- Byddwn yn ceisio cynyddu ein cyfranogiad at Gynlluniau Awdurdodau Sylfaenol i leihau baich rheoliadol a chynyddu cysondeb.
- Byddwn yn cynyddu'r pwyslais ar draws y sefydliad ar yr angen i ystyried effeithiau caffael cyn gynted â phosibl yn unol â'r amcanion strategol hyn.
- Byddwn yn datblygu ac yn darparu'r mentrau hyn yn ddeinamig yn ystod 2017/2018.

### Sut byddwn yn mesur llwyddiant?


- Gwerthusiad ac adborth gan gwsmeriaid.
- Nifer y tanau yn yr amgylchedd adeiledig a phroses atal colled ddilynol.
- Canran y busnes a osodir gyda Mentrau Bach a Chanolig eu Maint.

### Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd busnesau yn fwy cydnerth a chynaliadwy a bydd ganddynt lefelau cynyddol o gydymffurfiad deddfwriaethol o fewn baich rheoliadol gostyngedig. Bydd y cyngor a roddir i fusnesau yn fwy cyson ar draws ardaloedd daearyddol a bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth drwy addysg. Bydd defnyddwyr a chyflogeion adeiladau yn fwy diogel drwy fesurau a ymgorfforir ac a gynhelir gan ein camau ymgynghorol a rheoliadol. Bydd busnesau bach a chanolig eu maint yn deall anghenion y sefydliad a byddant mewn sefyllfa well i dendro. Hyrwyddir cynaliadwyedd economaidd o ganlyniad.

# Amcan Naw

## Buddsoddi yn ein pobl.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Yn 2015 enillodd y Gwasanaeth wobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl a'i nod yw cynnal y lefel hon o achrediad. Mae gennym fframweithiau ar waith i sicrhau bod y broses o gaffael, defnyddio a chynnal sgiliau a chymwyseddau yn cael ei mesur yn gywir. Rydym yn falch bod ein cyflogeion yn cyflawni cymwysterau sy'n gyson â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar draws safonau proffesiynol.

Ar ddechrau 2015 gwnaethom gynnal Archwiliad Diwylliannol a roddodd adborth hanfodol gan ein cyflogeion ynghylch proses yr Adolygiad Datblygu Unigol a sut mae hyn yn cefnogi anghenion datblygu unigol a sefydliadol.

Rydym wedi croesawu'r dull e-ddysgu newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ategu unrhyw anghenion dysgu a datblygu a nodwyd.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ystyried deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth sy'n dod i'r golwg sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarparwn, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Sicrhau bod gan ein holl staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl.
- Rhoi'r offer a'r cyfleoedd datblygu gorau posibl i'n staff i sicrhau diogelwch ein cyflogeion a'r cymunedau a wasanaethant.
- Cynnal a gwella ein llwyddiant Buddsoddwyr mewn Pobl i sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cydnabod yr ymrwymiad a wnawn i bobl a datblygiad sefydliadol;
- Adolygu ein Llwybrau Datblygu Sefydliadol i sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu effeithiol ac effeithlon.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Ymgorffori diwylliant dysgu a fydd yn diwallu anghenion presennol ein Gwasanaeth a'n hanghenion yn y dyfodol fel rhan o'r broses o loywi ein Llwybrau Strategol a mireinio ein proses Adolygu Datblygiad Unigol yn ystod 2017/2018.
- Archwilio pob cyfle i ddysgu o'n partneriaid a'n rhanddeiliaid a chydweithio â nhw (yn ystod 2017/2018).
- Sicrhau bod ein swyddogaeth ymchwil a datblygu yn edrych y tu hwnt i Sector Tân y DU ar gyfer atebion arloesol yn y dyfodol; proses barhaus dros y 5 mlynedd nesaf.
- Sicrhau bod sgiliau a chymwyseddau Critigol i Risg yn adlewyrchu'n gywir broffiliau risg ein cymunedau fel rhan o Amcan 4 a 6 yn 2016/2017.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn gwneud y canlynol:


- Archwilio'r Matrics Sgiliau Critigol i Risg a'r broses Adolygu Datblygiad Unigol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yn cynnwys cysylltiadau â'r llwybrau sefydliadol.
- Defnyddio'r Fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl i werthuso effaith hyfforddiant personol yn y sefydliad.
- Defnyddio proses werthuso i ddangos sut y gwnaethom ddefnyddio arloesedd i ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer ein cymunedau.
- Defnyddio gwybodaeth fusnes i lywio gwelliannau o ran Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

- Gwell boddhad swydd a morâl ymhlith cyflogeion.
- Gweithwyr mwy brwdfrydig a fydd yn ei dro yn gwella cynhyrchiant.
- Cyflogeion sy'n gwybod eu bod yn gymwys ac felly'n teimlo'n fwy hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Lleihad mewn trosiant cyffredinol cyflogeion a llai o absenoldebau.
- Cyflogeion y mae angen llai o oruchwyliaeth arnynt a chyfarwyddiadau llai manwl.
- Cyflogeion sydd mewn gwell sefyllfa i addasu i newidiadau a heriau.
- Delwedd well i'r Gwasanaeth wrth i gyflogeion deimlo bod hwn yn lle da i weithio.

# Amcan Deg

## Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Rydym wedi cynnal nifer o ymarferion effeithlonrwydd dros y blynyddoedd, gan arwain at arbedion sylweddol a gweithrediadau effeithlon.

Fodd bynnag nid yw'r ymarferion hyn wedi ymestyn i edrych tuag allan ar gymariaethau cost manwl y pen gan sefydliadau eraill, nac wedi archwilio arfer gorau ledled y DU ac yn rhyngwladol ar bob maes gwaith.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad busnes yn dryloyw, yn gadarn ac yn gyson, yn unol â chyfyngiadau'r amgylchedd economaidd presennol, mae angen i ni ddeall ein Gwasanaeth yn llawn o ran costau a sicrhau ein bod yn nodi'r broses fwyaf priodol o ddyrannu adnoddau er mwyn darparu'r lefel a'r ystod ddymunol o wasanaethau am y gost isaf posibl.

### Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Byddwn yn cynnal archwiliad cynhwysfawr o'n gwariant, gan gymharu ag eraill, a sefydlu model blaengynllunio ar gyfer asedau ac adnoddau.

Bydd y model blaengynllunio yn gymorth i lunio a llywio ein proses gwneud penderfyniadau ar gyfer 2017/2018 ac wedi hynny.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn monitro cynnydd gyda chyfraniad llawn Aelodau ac yn adrodd ar welliannau mewn perthynas â chostau cymharol neu werth yr arian.

Bydd ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ein helpu i lunio Cynllun Rheoli Asedau cynaliadwy.


## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd hyn yn gofyn am arbenigedd o fewn meysydd gwaith amrywiol ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr adrannau perthnasol, fodd bynnag byddwn yn monitro hyn ac yn dyrannu adnoddau yn unol â hynny.

Bydd y gwaith fodd bynnag yn arwain at ddealltwriaeth lawn o'r gwasanaeth a ddarparwn, yr hyn rydym am ei ddarparu ac am ba gost, ac arwain at wneud y penderfyniadau gorau posibl ynghylch adnoddau er mwyn creu Gwasanaeth Tân ac Achub cynaliadwy wrth symud ymlaen.

# Amcan Un Ar Ddeg

## Digido - Defnyddio technoleg er mwyn arloesi, cydweithio a grymuso.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae gennym hanes o ddefnyddio technoleg arloesol i gefnogi cyflawni ein gwasanaethau ynghyd â chydweithio ar brosiectau TG.

Mae'r prosiectau cydweithredol hyn yn cynnwys defnyddio system gyllid a chaffael ar y cyd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin; datblygu system adnoddau dynol a'r gyflogres ar y cyd â Gwasanaeth Tân De Cymru; a mabwysiadu prosiect Band Eang Sector Cyhoeddus Cymru.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

Cydnabyddwn fod potensial pellach i fabwysiadu technolegau gwybodaeth i ategu ein gweithgareddau a rhesymoli rhai systemau meddalwedd presennol. Bydd ein timau Gweithredu, Datblygu Busnes a TG yn ymchwilio i ffyrdd newydd o weithio a darparu ein gwasanaethau o fewn y Gwasanaeth ac i randdeiliaid allanol. Byddwn yn ceisio gwella ac addasu'r broses o ddarparu ein gwasanaethau drwy annog arloesi digidol, manteisio mwy ar ein hasedau gwybodaeth a thrwy groesawu'r dirwedd dechnolegol sy'n newid yn barhaus.

Bydd y defnydd estynedig o dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu datblygedig yn gwella ein prosesau busnes ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd busnes y bydd personél y gwasanaeth tân a rhanddeiliaid yn gallu manteisio arnynt fel ei gilydd.

### Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

- Yn 2017 byddwn yn datblygu Strategaeth Systemau Gwybodaeth newydd.
- Yn 2017 byddwn yn defnyddio system Diogelwch Tân i Fusnesau a gafodd ei huwchraddio.
- Yn 2017 byddwn yn datblygu gwefan ein Gwasanaeth er mwyn gwella mynediad cyhoeddus i'r sefydliad.

- Yn 2017/2018 byddwn yn defnyddio Mewnrwyd ddwyieithog newydd.
- Yn 2018/2019 byddwn yn prynu system ddata symudol yn lle'r hen un, a bydd yn cydymffurfio â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys newydd.
- Yn 2019/2020 byddwn yn defnyddio Prosiect Cysylltiadau Symudol Rhwydwaith Gwasanaethau Brys Llywodraeth y DU.
- Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i strategaeth 'Cloud First' Llywodraeth y DU pryd bynnag y byddwn yn adolygu ein systemau gwybodaeth newydd.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?


- Mynediad o bell cynyddol i systemau TG gweinyddol a gweithredol.
- Cynnydd o ran dibynadwyedd systemau TG a llai o gyfnodau anweithredol.
- Mwy o ddefnydd o Wefan y Gwasanaeth.
- Lleihad mewn prosesau busnes â llaw neu ar bapur.
- Mwy o ddiogelwch ar gyfer asedau gwybodaeth y gwasanaeth tân.
- Lleihad mewn gwariant TGCh 'tebyg wrth debyg'.
- Galluoedd data gwell ar gyfer criwiau gweithredol.
- Gwell cydweithrediad gweithredol.
- Systemau TGCh mwy cynaliadwy.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd cwblhau'r themâu a nodwyd yn llwyddiannus yn arwain at wella diogeledd a chadernid y Gwasanaeth yn y pen draw ynghyd â darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd. Bydd y manteision a ddarperir o ran prosesau busnes yn sicrhau gwell amgylchedd gwaith ar gyfer yr holl staff a'r adrannau.

# Amcan Deuddeg

## Gwella'r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd.




### Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Er ein bod bob amser wedi ymateb yn gadarnhaol i'r amgylchedd newidiol yr ydym yn gweithredu o'i fewn ac wedi addasu er mwyn ymateb i heriau newydd wrth iddynt godi, mae dulliau arloesol newydd a datblygiadau technolegol dros y blynyddoedd diwethaf wedi rhoi'r gallu i ni sicrhau gwelliant sylweddol yn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Rydym eisoes wedi mabwysiadu'r athroniaeth hon, drwy gyflwyno offer torri 'e-draulic', sydd wedi gwella diogelwch gweithredwyr a'u gallu i ddelio â rhyddhau pobl; defnyddio cerbydau awyr di-griw i gefnogi gweithrediadau; a'r system gorchymyn a rheoli a diffodd 'Cold Cut' sy'n cael ei threiau ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, rydym am archwilio dewisiadau pellach.

### Beth rydym yn bwriadu ei wneud a pham?

- Rydym am nodi ymhellach lle y gall newidiadau yng nghynllun offer, technegau gweithredu ac arloesedd newydd wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd.
- Rydym am leihau effaith ein gweithrediadau diffodd tân ac achub ar yr amgylchedd drwy ddefnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithlon.
- Rydym am sicrhau ein bod yn rhoi hyfforddiant, offer, technegau a phrosesau i'n diffoddwyr tân sy'n eu galluogi i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Sut a phryd y byddwn yn cyflawni hyn?

Drwy gydol 2017/2018 byddwn yn:

- Monitro ac yn adolygu effeithiolrwydd ein technegau, prosesau ac offer.
- Archwilio pob cyfle i ddysgu o'n partneriaid a chydweithio â nhw.
- Ymwneud â gwaith ymchwil a datblygu sy'n edrych ar draws a thu hwnt i'r sector Tân y DU am syniadau ac atebion.
- Ymchwilio i ddatblygiadau newydd mewn technoleg a phrosesau ac yn cynnal asesiadau a threialon yn unol â hynny.

## Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Monitro a lledaenu canlyniadau adolygiadau, ymchwiliadau ac ôl-adrodd.
- Casglu data rheoli perfformiad.
- Casglu tystiolaeth am ganlyniadau gwell mewn digwyddiadau ac ymarferion gweithredol, a nodir drwy'r system ddysgu weithredol.
- Monitro ac adrodd ar ein perfformiad yn unol â Rhaglen Gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Bydd defnyddio technoleg a dulliau arloesol newydd yn caniatáu i ni gyflwyno newidiadau a gwelliannau i helpu i wella diogelwch ein diffoddwyr tân; gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau digwyddiadau gweithredol; lleihau effaith ein busnes a'n gweithrediadau brys ar yr amgylchedd; ac ymestyn ac ehangu'r amgylchedd dysgu ar gyfer ein staff.

# Rhagor o wybodaeth

Mae ein gwefan yn cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am y meysydd y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y ddogfen hon. Yn yr Adran ynghylch Perfformiad ar ein gwefan cewch wybodaeth am y canlynol:-

- Cynlluniau Strategol
- Cynlluniau Gwella Blynyddol
- Adroddiadau Ymgynghori
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau ynghylch Dangosyddion Perfformiad Cymru
- Siarter Cymru ynghylch Ymateb i Danau mewn Anheddau.

Byddem yn croesawu eich sylwadau neu'ch awgrymiadau ar gyfer gwella cynlluniau yn y dyfodol. I roi adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **www.mawwfire.gov.uk** drwy ffonio **0370 6060699** neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad: **Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.**

Neu anfonwch neges e-bost atom i'r cyfeiriad: **post@tancgc.gov.uk**

## Fersiynau Amgen

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall gan gynnwys fel ffeil sain, cysylltwch â ni: **0370 6060699** neu anfonwch neges e-bost: **post@tancgc.gov.uk**